

Taflen Wybodaeth i Gleifion BIPAB Gwasanaeth Effaith Fawr

Pwy ydym ni?

Mae'r Gwasanaeth Effaith Fawr yn cael ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) i gleifion sy'n dod i'r Gwasanaethau Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng yn aml (UECS).

Nod y gwasanaeth hwn yw sicrhau eich bod yn cael mynediad at y gwasanaeth cywir ar yr amser cywir. Bydd hyn yn ei dro yn lleihau eich presenoldeb yn yr Adran Achosion Brys a gwasanaethau Gofal Brys o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau gan gynnwys Adrannau Achosion Brys, Timau Arbenigol, Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Gofal Brys y Tu Allan i Oriau, Plismona Bro, Asiantaethau Tai, Gwasanaethau Digartrefedd, Gwasanaethau Cymunedol ac Elusennau Cefnogi.

Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio?

Os ydych yn dod i sylw'r Gwasanaethau Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng yn aml neu os oes gennych anghenion sydd angen cymorth ychwanegol y tu allan i'r Adran Achosion Brys. Byddwn yn:

- Rheoli eich gofal yn weithredol drwy adolygu eich ymweliadau/cysylltiadau ag Adrannau Achosion Brys a Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a gweithio gyda chi i ddarparu'r cymorth cywir
- Cyswllt dilynol dros y ffôn ac, mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb.
- Cyd-gynhyrchu cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau rheoli

Cydnabyddir bod gan lawer o bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Brys anghenion cymhleth a defnyddio dull aml-asiantaeth yw'r ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hyn.

Cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau rheoli

Er mwyn darparu'r gofal gorau posibl i chi efallai y byddwn yn rhoi cynlluniau ar waith i reoli eich iechyd a'ch lles pan fyddwch yn cael mynediad at Wasanaethau

Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng. Ein nod yw gweithio gyda chleifion i gynhyrchu'r cynlluniau hyn gyda'n gilydd a dod o hyd i ateb sy'n gweithio i'r claf a'r gwasanaeth.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd aelod o'r Gwasanaeth Effaith Fawr yn cysylltu â chi i drafod eich atgyfeiriad. Yn ystod y cyswllt hwn byddwch yn cael cyfle i drafod eich cysylltiadau diweddar a chael asesiad o'ch anghenion. Byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd i gael eich cyfeirio at asiantaethau a fydd yn gallu darparu cymorth a chefnogaeth yn seiliedig ar eich anghenion.

Sicrhewch bod y manylion cyswllt sydd gan y Bwrdd Iechyd yn gywir.

Gwasanaethau Eraill Sydd ar Gael

ADRAN ARGYFWNG

Mae'r brif Adran Achosion Brys bellach wedi'i lleoli yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yng Nghwmbrân. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer cyflyrau difrifol sy'n bygwth bywyd megis trawiad ar y galon, strôc, damweiniau difrifol a chyflyrau anadlu.

Mae gwybodaeth am wasanaethau a mân salwch a thriniaeth ar gael yn <https://111.wales.nhs.uk/>

UNED MÂN ANAFIADAU

Mae pedair Uned Mân Anafiadau

- Ysbyty Ystrad Fawr - Ystrad Mynach
- Ysbyty Aneurin Bevan - Glyn Ebwy
- Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd
- Ysbyty Nevill Hall, Y Fenni

Mae'r rhain yn cael eu rhedeg gan Ymarferwyr Nyrsio Brys sydd wedi cael hyfforddiant pellach mewn asesu a rheoli mân anafiadau.

Fferyllfeydd Lleol

Gall y rhain roi cyngor i chi ar salwch a'r meddyginiaethau y gellir eu defnyddio i'w trin. Gallwch ddod o hyd i fanylion eich fferyllfa leol yn: <https://111.wales.nhs.uk>

Meddygon Teulu

Gallwch wneud apwyntiad gyda meddyg i gael cyngor meddygol, archwiliadau, presgripsiynau a thriniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o afiechydon. Gallant hefyd eich cyfeirio at wasanaethau ysbyty lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn eich galluogi i osgoi'r Adran Achosion Brys. Pan fydd yn gwbl hanfodol byddant yn trefnu ymweliad cartref.

Er mwyn i chi dderbyn y gofal mwyaf priodol mae'n hanfodol eich bod wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu. Gallwch ddod o hyd i fanylion practisau lleol yn <https://111.wales.nhs.uk>

Gofal Brys (Meddyg Teulu) Y Tu Allan i Oriau

Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer problemau meddygol brys na allant aros nes bod eich practis meddyg teulu ar agor nesaf. Gellir cael gafael ar y gwasanaeth hwn drwy ffonio 111.

111

Gall y gwasanaeth hwn ddarparu cyngor ar iechyd a chyfeirio. O fewn BIPAB bellach mae opsiwn ar gyfer cymorth iechyd meddwl gan ddefnyddio'r rhif hwn.

Deintydd

Os nad ydych wedi cofrestru gyda Deintydd gallwch gael gwybodaeth am ddeintyddion trwy e-bostio ABBDental.Helpline@wales.nhs.uk neu ffonio 01633 744387, gellir trefnu apwyntiadau deintyddol brys trwy ffonio'r rhif hwn hefyd. **Gall eich llyfrgell leol ddarparu mynediad i'r rhyngwyd.**

C.A.L.L Helpline – 0800 132 737 neu anfonwch neges destun at 81066
www.callhelpline.org.uk

Mae C.A.L.L yn cynnig cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â Iechyd Meddwl. Maent yn darparu gwasanaeth gwranddo a chymorth cyfrinachol i bobl neu eu perthnasau sydd â phryderon am eu hiechyd meddwl.

Gwasanaeth Alcohol Gwent GDAS – 0333 999 3577

Mae GDAS yn darparu cefnogaeth i bobl a'u teuluoedd sy'n cael trafferth gyda phroblemau cyffuriau neu alcohol.

Dim ond mewn argyfwng critigol neu argyfwng sy'n bygwth bywyd y dylid defnyddio Adrannau Achosion Brys a'r Gwasanaeth Ambiwylans 999.

Manylion cyswllt

Gwasanaeth Effaith Fawr
Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng
Ysbyty Brenhinol Gwent
Casnewydd
Gwent
NP20 2UB

01633 656431
ABB.HighImpactService@wales.nhs.uk

**"This document is available in English/
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".**